Ysgol Waunfawr Tymor Yr Hydref 2020: Rhan 2

Annwyl Riant- dyma ychydig o newyddion o'r ysgol yn ystod yr hanner tymor. Diolch yn fawr i chwi am eich cefnogaeth ar amser mor heriol i'r ysgol a'r gymuned. Mae wedi bod yn bleser cael bod ymysg eich plant a phawb yn groesawgar a chyfeillgar iawn. Mwynhewch y seibiant a chadwch yn ddiogel. Bydd yr ysgol yn ail-agor 5/1/21. Nadolig Llawen.

Diolch i Gethin o glwb pêl-droed Y Bala am hyfforddi Blwyddyn 4 y tymor hwn!

Diolch i Bev Atkin o dim Byw'n Iach am gynnal sesiynau chwaraeon gyda Blwyddyn 3.

Pawb yn mwynhau cinio Nadolig!

Mae pwyllgor rhieni a chyfeillion yr ysgol yn awyddus i gael mwy o gymorth i godi arian ar gyfer yr ysgol. Cysylltwch â cyfeillionysgolwaunfawr@gmail.com am fwy o wybodaeth sut y gallwch eu helpu.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!

Coron arbennig i ginio Nadolig!

Dyddiadau HMS 2020- 2021
4/1/21
12/2/21
12/3/21
12/4/21
19/7/21
20/7/21
Pwysig** Gall rhain newid yn ystod y flwyddyn yn ddibynnol ar amgylchiadau.

Siocledi i bob plentyn gan y Cyngor Cymuned. Diolch yn fawr

Diolch i bawb am gefnogi y gwerthiant o gardiau Nadolig a llieiniau golchi llestri-gwnaethpwyd elw da i'r ysgol. Mae llieiniau ar gael o hyd os oes rhywun eisiau prynu mwy!

Diolch i Mrs Meri Jones Prosiect Sbectrwm Cymru am drafod perthnasau iach gyda'r disgybion.

Hwyl fawr a diolch i Mrs Herbert am ei gwaith y tymor hwn gan blant Bl 5+6.

Blwyddyn 4 yn eu hetiau Nadolig yn gwneud y Ras Siôn Corn- da iawn pawb!